Gwybodaeth bwysig am COVID-19

Cawsoch y driniaeth ganlynol ar gyfer COVID-19:

Molnwpirafir

Meddyginiaeth wrthfeirol yw molnwpirafir sy'n atal SARS-CoV-2, y feirws sy'n achosi COVID-19, rhag atgynhyrchu. **Cofiwch gwblhau cwrs pum niwrnod o'r feddyginiaeth hon**, hyd yn oed os yw'ch symptomau'n gwella a/neu os ydych yn teimlo'n well, i leihau'r siawns o ymwrthedd feirysol yn datblygu. Gan eich bod wedi profi'n bositif am COVID-19, **mae'ch cyfnod hunanynysu yn cynnwys y diwrnod y dechreuodd eich symptomau a'r 10 diwrnod llawn nesaf.** Efallai y bydd angen ichi hunanynysu am fwy na hyn os na fydd eich symptomau'n diflannu.

Os ydych yn feichiog neu'n berson a allai feichiogi, darllenwch y canlynol yn ofalus:

Nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar ddefnyddio molnwpirafir yn ystod beichiogrwydd ac felly nid yw'n cael ei argymell ar gyfer rhywun beichiog.

Os ydych yn gallu beichiogi rhaid ichi ddefnyddio dull atal cenhedlu effeithiol am hyd y driniaeth ac am 4 diwrnod ar ôl y dos olaf o folnwpirafir.

Os byddwch yn darganfod eich bod yn feichiog, neu'n beichiogi tra ydych yn cymryd molnwpirafir, neu'n fuan wedyn, rhowch wybod am hyn drwy gysylltu â Chofrestr y DU ar gyfer Meddyginiaethau Gwrthfeirol COVID-19 yn ystod Beichiogrwydd, 0344 892 0909, neu drwy ofyn i'ch meddyg wneud hynny ar eich rhan. I gael rhagor o wybodaeth ewch I **medicinesinpregnancy.org/COVID- 19-Antivirals-Pregnancy-Registry/**

Yn ogystal, rhowch wybod i'ch meddyg gan y bydd angen cadw golwg arnoch.

Os ydych yn bwydo ar y fron, dylech beidio â gwneud hynny yn ystod y driniaeth ac am 4 diwrnod ar ôl cwblhau'r driniaeth.

Fel pob meddyginiaeth, gall molnwpirafir achosi sgil-effeithiau. Mae'r rhan fwyaf yn ysgafn a byrhoedlog, ac nid yw pawb yn eu cael.

Dylech roi gwybod am unrhyw sgil-effeithiau posibl i'r cynllun Cerdyn Melyn **ar y wefan Cerdyn Melyn ar gyfer y Coronafeirws** neu ar yr ap Yellow Card.

1. **Siaradwch â'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol** am gyngor os ydych yn poeni am eich iechyd

2. **Darllenwch y daflen wybodaeth** i gleifion a gafodd ei darparu gyda'ch meddyginiaeth. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar y wefan Cerdyn Melyn ar gyfer y Coronafeirws

3. Rhowch wybod am sgil-effeithiau posibl yn **https://coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk**

   Sganiwch y cod QR ar y dde i fynd i'r wefan, neu defnyddiwch yr ap Yellow Card

4. Os ydych yn ansicr, rhowch wybod beth bynnag gan fod amheuaeth o sgil-effaith yn ddigon.

UK Health Security Agency

NHS

Important COVID-19 information

You received the following treatment for COVID-19:

Molnupiravir

This is an antiviral medicine that inhibits the replication of SARS-CoV-2, the virus that causes COVID-19. **Please make sure that you complete a five-day course** of this medicine even if your symptoms improve and/or you feel better, to reduce the chances of viral resistance developing. As you have tested positive for COVID-19, **your self-isolation period includes the day your symptoms started and the next 10 full days.** You may need to self-isolate for longer if your symptoms do not go away.

If you are pregnant or a person of childbearing potential, please read the following carefully:

There are currently no data on the use of molnupiravir in pregnancy and so it is not recommended during pregnancy.

If you are able to become pregnant you must use effective contraception for the duration of treatment and for 4 days after the last dose of molnupiravir.

If you find out that you are pregnant, or became pregnant while taking molnupiravir, or shortly after, please report this by contacting the UK COVID-19 Antivirals in Pregnancy Registry on 0344 892 0909 or by asking your doctor to do this on your behalf. For more information go to **medicinesinpregnancy.org/COVID-19-Antivirals-Pregnancy-Registry/**

In addition, please inform your doctor as you will need to be followed up closely.

If you are breastfeeding, you should stop breastfeeding during the course of treatment and for 4 days after completion of treatment.

Like all medicines, molnupiravir can cause side effects. Most of these are mild and short term, and not everyone gets them.

Report any suspected side effects to the Yellow Card scheme using the **dedicated Coronavirus Yellow Card reporting site** or the Yellow Card app.

1. **Speak to your healthcare professional for advice** if you are worried about your health

2. **Check the patient information leaflet** supplied with the medicine. You can also find this information on the MHRA Coronavirus Yellow Card reporting site.

3. Report suspected side effects at **https://coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk**

   Scan the QR code on the right to take you to website, or use the Yellow Card app.

4. If unsure or in doubt, report it anyway as only a suspicion is needed.

© Crown copyright 2021. UK Health Security Agency Gateway Number: 2021941. Product code: AVC21EN. 1p 500K DEC 2021 (APS). Version 1. If you want to order more copies of this leaflet using the product code AVC21EN, please visit: www.healthpublications.gov.uk or call 0300 123 1002.